**Cynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg 2025-30 - Digwyddiad ymgysylltu 18 Gorffennaf 2024**

Mae'r Cyngor yn eich gwahodd i ymuno â ni mewn sesiwn galw heibio ar 18 Gorffennaf rhwng 2.00pm a 6.00pm yn Ystafell Dwnrhefn, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU i drafod datblygiad Cynllun Corfforaethol newydd ein Cyngor 2025-30.

Bydd y sesiwn galw heibio hon yn gyfle i siarad am y cynllun newydd a bydd yn rhedeg o 2.00pm tan 6.00pm a gallwch alw heibio am ba bynnag hyd y dymunwch yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd hefyd yn gyfle i sgwrsio â ni am ein perfformiad fel cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf a sut mae hynny'n llywio gweithgareddau yn y dyfodol.

Y Cynllun Corfforaethol yw ein dogfen strategol bwysicaf gan ei fod yn nodi'r meysydd ffocws allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, ein blaenoriaethau, ein gweithgareddau allweddol a'r canlyniadau yr hoffem weld yn cael eu cyflawni.

Rydym ar gamau cynnar datblygu'r gwaith hwn ac yn awyddus i gynnwys ein partneriaid a sefydliadau eraill ledled y Fro i gael eich syniadau ar gyfer y canlyniadau allweddol y dylem fod yn ceisio eu cyflawni dros y blynyddoedd i ddod.

Fel rhan o'r ymgysylltu ar y Cynllun newydd, hoffem siarad am ein hamcanion newydd arfaethedig. Rydym wedi datblygu ein hamcanion drafft gan edrych ar ganlyniadau ein harolwg trigolion diweddar ac amrywiaeth o wybodaeth arall am y Fro, ein cymunedau a'n gwasanaethau lleol. Rydym yn gwybod y bydd ga n ein cynllun newydd bwyslais cryf ar weithio mewn partneriaeth ac rydym yn awyddus i siarad â chi am y syniadau sy'n dod i'r amlwg.

Bydd ein Cynllun 2025-30 yn nodi Amcanion Lles newydd a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer gweithgareddau dros y blynyddoedd nesaf a thu hwnt. Rydym yn deall y bydd yr hyn a wnawn nawr yn effeithio ar sut olwg fydd ar y dyfodol.

Byddwn allan dros fisoedd yr haf mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau yn siarad â'r cyhoedd am ein cynllun newydd. Yn yr Hydref, byddwn yn cynnal rhaglen ymgynghori ffurfiol ar y cynllun drafft cyn cyhoeddi fersiwn derfynol ym mis Ebrill 2025.

Ein gweledigaeth yw ***cymunedau cryf gyda dyfodol disglair*** a bydd ein Cynllun newydd yn nodi'r cam nesaf yn y daith honno a sut y bydd y Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth i gyflawni dros y Fro.

Edrychwn ymlaen at eich gweld ar y 18fed a chlywed eich barn ar sut y gallwn ganolbwyntio ar y bobl a'r lleoedd a chyflawni'r weledigaeth honno.

Rhowch wybod i ni os ydych yn bwriadu dod drwy e-bostio consultation@valeofglamorgan.gov.uk. Os na allwch fod yn bresennol, ond byddech yn croesawu'r cyfle i rannu eich meddyliau, rhowch wybod i ni hefyd.